Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 29ain Gorffennaf 2014

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, D. Williams, G. Parry, , A. Williams, G. C. Jones, B. Jones, P. Roberts, Mervyn Jones Cynghorwyr Sirol J. Evans, Meirion Jones, A. Mummery
Anewn Le Cras (Swyddog Cyllid), Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: H. Huws, A. Thomas

2. Datganiadau Diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Cyfrifion mis Gorffennaf 2014
3.1 Derbyniwyd cyfrifion y Cyngor Bro fel y rhai cywir.
3.2 Derbyniwyd cyfrifion y Neuadd Goffa fel y rhai cywir.
3.3 Derbyniwyd cyfrifion y Fynwent fel y rhai cywir.
3.4 G. C. Jones am edrych i fewn i filiau trydan sydd yn daliadwy ar gyfrif trydan y Neuadd Goffa

4. Cadarnhau Awdit 2013/2014
4.1 Derbyniwyd fel y rhai cywir.

5. Materion y Cyngor Sir
5.1 A. Mummery yn dweud ei bod hi yn edrych yn debygol bod o dan yr Afon Fenai bydd y llinellau trydan, ond bod y Grid Cenedlaethon yn ffafrio gosod peilonau dros y tir hyd yr ynys. G. C. Jones yn cadarnhau bod y grwp yn erbyn y peilonau yn bwriadu ysgrifennu llythyr ffurfiol yn ymateb i'r ymgynghoriad.
5.2 A. Mummery yn cadarnhau fod y Cyngor Sir am wneud gwelliannau i Lôn Penmynydd
5.3 A. Mummery yn cadarnhau fod y rhybudd wedi ei rhoi gan y Cyngor Sir am y gordyfiant wrth Ty Coch.

6. Cyflwyno a cadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol Mai 27 2014
6.1 Dod I sylw y clerc fod y Cynghorwyr Sirol, Clerc a Swyddog Cyllid i ymddangos ar wahan i'r Cynghorwyr Bro yn y cofnodion.
6.2 Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion
7.1 A. Mummery wedi rhoi cwyn i'r Cyngor Sir am y dwr sydd yn sefyll ar y lôn y tu allan i'r feddygfa pan mae hi yn bwrw
7.2 Twr Marcwis wedi cau – Jones Peckover yn gwneud ymholiadadau os oes modd I rhywun gymeryd drosodd. Cyngor Bro I rhoi pwysau ar y Cyngor Sir a Jones Peckover I weld beth sydd yn digwydd.
7.3 A. Jones, A. Mummery a Dafydd Owen wedi cyfarfod Menter Môn, y wefan am fynd yn fyw ar ol gyrru enwau gwinyddwyr y safle i Menter Mon.
7.4 Caniatad am osod baneri ar golau stryd. Clerc I ddilyn I fyny.
7.5 Cerrig beddi - nodwyd bod un o'r cerrig wedi'i ail osod yn ddiogel. A Le Cras i atgoffa teulu'r diweddar Mr Phillips am eu cyfrifoldeb parthed y garreg.
7.6 Goleuadau tu allan i'r pafiliwn wedi torri – Anwen am ddilyn I fyny hefo Gavin Roberts
7.7 Carffosiaeth ar lannau'r Fenai ger eglwys Santes Fair. Cler I gysylltu gyda Dwr Cymru ac Adnoddau Cymru I'w hysbysu
7.8 Gofyn I'r Cyngor Sir os oes bwriad gosod plac ar hen dy Kyffin Williams yn Pwllfanogl. A. Mummery yn cynnig bod un o'r Cynghorwyr Sirol yn dilyn I fyny gyda Pat West.
7.9 Llwybyr beicio –Anwen am gysylltu gyda Jenny Clarke yn y Cyngor Sir I ofyn am amserlen
7.10 Menter Môn ar hyn o bryd yn cynorthwyo ar geisiadau grantiau am y Neuadd Goffa. Menter Môn am gysylltu gyda Dewi Williams (DEWIS) am gadarnhad o costau.
7.11 Llythyr gan Hwfa yn dweud bod dim cadeiriau yn y Neuadd Goffa a dim a dim esboniad na chaniatâd wedi ei rhoi. Clerc I yrru llythyr I longyfarch y carnifal ond yn codi y mater o 'r cadeiriau a hefyd parcio yn difethau y treiniau. Cynig bod mwy o drafodaeth yn digwydd yn y dyfodol.

7.12 Coeden Nadolig – Clerc i wahodd cynrychiolwyr o Glwb Pel Droed Iau, Pwyllgor y Carnifal a Ffrindiau Parc a'r gors I Gyfarfod Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo ar y 16/09/2014 I drafod cyfrifoldebau I osod y goeden nadolig. Meirion Jones I holi y Cyngor Sir I weld os oes modd cael cysylltiad trydannol ar y safle.

8. Cofnodion Pwyllgor y Fynwent 15 Gorffennaf 2014
8.1 G. Parry yn cynnig ei bod yn gywir, A. Jones yn eilio

9. Materion yn Codi
9.1 A. Mummery yn cynnig mai Medwyn sydd yn gyfrifol am gynnal y gwlau blodau.
9.2 G. Parry yn cynnig bod llythyr cydymdeimlad yn cael ei yrru I deulu Hwfa Roberts. Anwen wedi gwneud.
9.3 J. Roberts yn cynnig bod un o'r coed yn y fynwent angen sylw brys.

10. Cofnodion Pwyllgor Cyllid 15 Gorffennaf 2014
10.1 A. Mummery yn cynnig ei bod yn gywir, J. Roberts yn eilio

11. Materion yn Codi
Dim materion sydd heb ei drafod yn barod

12. Adolygu rheoliadau cyllid
12.1 Derbyn yr adolygiad

13. Swydd Gofalwr y Neuadd Goffa
13.1 A. Mummery yn diolch I Anwen am sefyll I fewn a gwneud y gwaith. A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio bod Anwen yn cael cyflog am wneud y swydd gofalwr drost dro. Anwen am ddrafftio swydd-ddisgrifiad i'r swydd.

14. Aelodaeth 'Anglesey Tourism Association'
14.1 G. C. Jones yn cynnig, A. Mummery yn eilio bod y Cyngor Bro yn ymuno gyda 'Anglesey Tourism Association', gan fydd aelodaeth rhoi cefnogaeth i'r Cyngor gyda materion fel twristiaeth ac eu ymgyrch yn erbyn y peilonau.

15. Ceisadau Cynllunio
15.1 Rhif cais 31C113D – Dim sylwadau pellach i'r rhai cafwyd I'w wneud ar y cais amlinellol.

16. Gohebiaeth
16.1 Llythyr Mrs Jean McQueen – clerc I yrru llythyr at Mrs McQueen yn cadarnhau mai mater I'r heddlu ydy'r traffic, a gyrru llythyr at y Heddlu yn mynegi pryder y trigolion lleol am y mater.
16.2 Gwahoddiad am enwebiadau anrhydeddau penblwydd – A. Mummery yn cynnig Ifor Evans am ei waith elusennol
16.3 E-bost gan clerc Cyngor Cymuned Llangefi (Cwrs Cyfrifoldebau yn disgyn ar ysgwyddau Cyngjorau Tref a Chymunedau – A. Jones yn cynnig bod J. Roberts a A. Mummery yn mynd. Clerc i gadarnhau dyddiad
16.4 Unllais Cymru – Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 04 Hydref 2014, e-bost I'w yrru ymlaen
16.5 Diweddariad Grid Cenedlaethol – Derbyn y wybodaeth
16.6 Llywodraeth Cymru – Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 (Gwahardd Cerbydau) – Derbyn y wybodaeth
16.7 Penderfyniadau Cynllunio – Dim sylwadau
16.8 Cylch Meithrin Llanfairpwll (Gwaith Adneyddu) – Gyrru llythyr I'w llongyfarch

17 Unrhyw Fater Arall
17.1 Meirion Jones yn dangos pryder am gyflwr Lon Refail. Cyngor Bro i yrru llythyr at y Cyngor Sir yn dweud hyn a gofyn os oes gwith wedi ei gynllunio

Dyddiad Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 30 Medi 2014 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa